

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Meddygfa Sili, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Sili, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 28 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd canfyddiadau ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan nodi fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gwrtais a pharchus.

Roedd y practis yn pwysleisio hybu iechyd a llesiant i gleifion ac roedd amrywiaeth eang o wybodaeth wedi'i harddangos yn yr ardal aros, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau sgrinio, gwybodaeth am ddementia a gwybodaeth i ofalwyr. Yn ogystal, roedd ardal ar wahân ar gael wrth ymyl yr ardal aros lle gallai'r cleifion ddefnyddio'r glorian a'r peiriant pwysedd gwaed. Byddai'r canlyniadau wedyn yn cael eu cofnodi'n awtomatig yng nghofnod y claf perthnasol a gallai'r nyrs fwrw golwg arnynt.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol. Mae'r practis hefyd wedi rhoi system 'ffonio nôl' ar waith, sy'n rhoi'r opsiwn i'r cleifion ddewis i'r practis eu ffonio nôl pan fyddant ar flaen y ciw ffôn. Roedd y rhan fwyaf o'r apwyntiadau yn cael eu trefnu dros y ffôn, ond roedd modd trefnu apwyntiadau drwy system ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan yr holl amgylchiadau priodol. Roedd hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i arddangos yn yr ardal aros, ond nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol i ddangos bod y gwasanaeth hwn ar gael.

Nid oes unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis, ond fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da. Roedd prosesau ar waith er mwyn helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r practis hefyd.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond roedd angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion. Er y dywedwyd wrthym fod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, gwnaethom argymhell y dylid rhoi rhaglen fanylach o archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i fonitro yn erbyn y safonau.

Roedd proses cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau neu frechlynnau yr oedd angen eu cadw yn yr oergell. Roedd dwy oergell glinigol ddynodedig ar gyfer eitemau penodol, megis brechlynnau. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau ac roedd y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau hyn. Cadarnhaodd sgysiau â'r staff eu bod yn gwybod beth oedd y tymheredd uchaf a'r tymheredd isaf a beth i'w wneud pe bai'r gadwyn oer yn torri.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roedd y cofnodion yn gyfredol ac yn hawdd i glinigwyr eraill eu deall. Gwelsom fod parhad gofal yn dda ar y cyfan, ac roedd pob meddyg teulu yn goruchwyllo cleifion a chofnodion cleifion yn ofalus. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn nodi a oedd gan y claf unrhyw alergeddau ai peidio. Er bod y cofnodion a welwyd yn dangos tystiolaeth o ymgynghoriadau o ansawdd da â'r cleifion, gellid eu gwella drwy ddefnyddio Codau Read yn rheolaidd i gadw crynodebau ac i gysylltu ymgynghoriadau sy'n ymdrin â'r un broblem glinigol.

Roedd yn silindr ocsigen cludadwy yn cael ei storio yn y practis. Er bod hysbysiad wedi'i osod ar y drws lle roedd yr ocsigen yn cael ei storio, nid hysbysiad perygl statudol oedd yr hysbysiad hwn, ac nid oedd y cynllun diogelwch tân yn nodi lleoliad yr ocsigen ychwaith.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom nodi sawl maes yr oedd angen ymdrin â nhw drwy ein proses sicrwydd ar unwaith, lle gwnaethom ysgrifennu at y practis o fewn deuddydd i'r arolygiad yn gofyn iddo lunio cynllun gwella ar unwaith. Roedd y materion yn cynnwys y canlynol:

- Gwiriadau amserol o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys
- Lleoliad a hygyrchedd y cyffuriau brys
- Cwblhau hyfforddiant gorfodol

Cyflwynodd y practis gynllun gwella ar unwaith i ni. Gwnaethom fwrw golwg dros y cynllun hwnnw a'i dderbyn. Mae manylion y gwelliannau i'w gwneud ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu mynd at yr arweinwyr i fynegi unrhyw bryderon ac y byddent yn ymdrin â nhw'n briodol. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod polisi drws agored ar waith er mwyn i'r staff allu rhannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Gwelsom gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau, ond nid oedd pedwar polisi allweddol ar waith. Roedd y broses rheoli dogfennau a oedd ar waith yn gyfyngedig hefyd, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.

Roedd y practis yn gofyn i gleifion am adborth. Roedd gwybodaeth yn cael ei dangos yn yr ardal aros yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o glwstwr meddygon teulu. Roedd staff meddygol yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan. Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal ym Meddygfa Sili cyn yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2025. Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda phob un o'r ymatebwyr ond un yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r feddygfa yn fan mor gynnes a chroesawgar, mae pawb yn awyddus i helpu ac yn rhoi gofal da. Mae'r meddygon teulu wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ac wedi fy helpu i ac aelodau o'm teulu mewn sawl ffordd wahanol. Rwy'n cael gwybodaeth dda am fy ieched. Mae'r feddygfa hon wedi creu argraff dda iawn arna i, yn enwedig gan fy mod wedi cael profiadau gofal gwael gan feddygfeydd eraill. Gwnaethom symud i'r feddygfa hon ac rydym wrth ein bodd â'r gofal rydym yn ei gael!"

"Mae'r feddygfa hon yn ymddangos yn drefnus iawn ac mae'r staff yn hapus ac yn gwrtais iawn, ac yn barod i helpu ag unrhyw gwestiwn."

"Yn ôl fy mhrofiad i, mae'r practis yn cael ei rhedeg yn dda iawn gan aelodau o staff cymwys a gofalgar."

"Mae pob agwedd ar y practis o'r radd flaenaf."

"Mae ...yn feddyg anghwrtais iawn na wnaeth wrando ar bryderon fy merch. Cafodd ei diystyru a siaradodd â hi mewn ffordd ofnadwy... does dim tosturi gan lawer o'r meddygon, ac eithrio [Meddyg]. Mae nifer y bobl lle mae Meddygfa Sili wedi methu â rhoi diagnosis cywir iddynt yn destun pryder difrifol. Roedd fy ngŵr yn un ohonynt... Rydym wedi ceisio gadael y feddygfa hon ond oherwydd yr ardaloedd rydym yn byw ynddynt, does dim meddygfeydd eraill yn barod i'm derbyn i nac aelodau o'm teulu."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu ieched

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu ieched ar gael i gleifion yn y practis. Gwelsom wybodaeth hybu ieched am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gwasanaethau sgrinio, dementia a gwybodaeth i ofalwyr.

Gwnaeth ymatebion i'n holiadur i gleifion gadarnhau bod deunydd hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos yn y practis. Yn ogystal, dywedodd yr unigolion a ymatebodd i'n holiadur staff fod y practis yn cynnig cyngor a gwybodaeth hybu iechyd am gyflyrau cronig i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â nifer o asiantaethau er mwyn gwella ei allu i gysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol drwy ei grŵp clwstwr. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl, y gwasanaeth cyswllt gofal sylfaenol, a'r tîm diogel gartref sy'n galluogi cleifion i gael gfael ar help a chymorth gan asiantaethau eraill mewn ffordd amserol.

Roedd ardal ar wahân ar gael wrth ymyl yr ardal aros lle gallai'r cleifion ddefnyddio'r glorian a'r peiriant pwysedd gwaed. Byddai'r canlyniadau wedyn yn cael eu cofnodi'n awtomatig yng nghofnod y claf. Mae hwn yn faes o arfer canmoladwy, oherwydd gall cleifion ddefnyddio'r cyfleusterau hyn unrhyw bryd y bydd y feddygfa ar agor. Fodd bynnag, **byddai'n fuddiol gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r gwasanaeth hwn a gosod hysbysiad â chyfarwyddiadau clir.**

Roedd gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer cleifion agored i niwed a'r rhai heb ddyfeisiau digidol.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf yn y feddygfa. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael.

Roedd pob un o'r ymatebwyr ond un a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Roedd gwydr i wahanu desg y dderbynfa, a oedd yn cynnig rhywfaint o breifatrwydd o'r ardal aros. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd modd derbyn galwadau ffôn mewn dwy ystafell breifat hefyd, i ffwrdd o desg y dderbynfa, pe byddai angen. O blith y rhai hynny a ymatebodd i'n holiadur i gleifion, roedd y mwyafrif yn teimlo eu bod yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan yr holl amgylchiadau priodol, ac roedd polisi hebryngwyr ar waith. Roedd hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i arddangos yn yr ardal aros, ond nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol i ddangos bod y gwasanaeth hwn ar gael.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion am yr opsiwn o gael hebryngwr ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai'r cleifion gael gofal gan y person mwyaf priodol mewn modd amserol.

Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu dros y ffôn gan fwyaf, ond gellid trefnu rhai apwyntiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd. Roedd apwyntiadau yn cynnwys apwyntiadau brys ar yr un diwrnod, neu apwyntiadau cyffredin y gellir eu trefnu ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnig apwyntiadau y gellir eu trefnu ymlaen llaw 13 wythnos ymlaen llaw, **sy'n faes o arfer canmoladwy.**

Dywedodd pob un ond un a ymatebodd i'n holiadur i gleifion eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar fyrder, a dywedodd pob un ond dau eu bod yn gallu cael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt.

Mae'r practis wedi rhoi system 'ffonio nôl' ar waith, sy'n galluogi cleifion i ofyn i'r practis eu ffonio nôl pan fyddant ar flaen y ciw, yn hytrach nag aros. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom ddata gweithgarwch cofnod galwadau'r feddygfa a oedd yn dangos nad oedd unrhyw un wedi rhoi'r gorau i aros wrth ffonio'r practis y bore hwnnw.

Gwnaeth rhai cleifion sylwadau ar eu gallu i gael apwyntiadau, gan gynnwys y canlynol:

“Roeddwn wedi fy nghofrestru â meddygfa arall cyn hyn, ac yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiadau, hyd yn oed i faban ifanc. Yn y diwedd, ysgrifennais lythyr i gwyno. I'r gwrthwyneb yn llwyr, mae Meddygfa Sili wedi bod yn chwa o awyr iach! Mae'r staff bob amser yn barod iawn eu cymwynas ac yn gyfeillgar ac yn cymryd eu hamser i'ch helpu. Mae'r amseroedd ateb ar y ffôn yn fyr ac rwyf bob amser wedi bod yn fodlon ar gyflymder yr apwyntiad a gynigir. Trueni na fyddai pob meddygfa fel Sili!”

Roedd prosesau ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl. Lle y bo'n briodol, caiff cleifion eu hatgyfeirio at y tîm argyfwng iechyd meddwl/ gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc i gael cymorth argyfwng brys. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd gan y feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai ag anawsterau clywed.

Fel arfer, roedd cleifion yn cael gwybod am y gwasanaethau a gynigir yn y practis drwy'r wefan a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os oedd yn hysbys nad oedd gan gleifion ffôn symudol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y practis yn siarad Cymraeg. Fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai arwyddion a phosteri ar gael yn Gymraeg, ond dim ond yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf ohonynt ar gael.

Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer cofnodi gwybodaeth gan wasanaeth gofal eilaidd a gweithredu yn ei chylch. Caiff llythyrau a dogfennau eu cyfeirio at yr ymarferydd gofal iechyd cywir fel y gall weithredu arnynt yn ôl yr angen a chânt eu hanfon i'w sganio i mewn i gofnodion y cleifion wedyn. O'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod y staff gofal iechyd wedi rhoi gwybodaeth i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd mynediad i'r safle yn dda, ac roedd yn cynnig mynediad hawdd i gleifion ag anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn y tu mewn i'r adeilad. Hefyd, mae cadair olwyn ar gael yn y practis y gall cleifion ei defnyddio os bydd angen.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur o'r farn fod yr adeilad yn hygyrch iawn, ond nododd un ymatebydd:

'...mae'r feddygfa ar allt a all fod yn anodd i sgwter symudedd neu gadair olwyn. Hefyd, mae'r toiled sydd ar gael yn fawr ond nid yw'n gwbl hygyrch i rywun sy'n defnyddio sgwter symudedd neu unigolyn heb unrhyw symudedd.'

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ond nid oedd yn benodol i'r practis. Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur i gleifion nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar adeg yr arolygiad, ac ni allai'r staff gadarnhau pwy oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn, os o gwbl. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Dywedwyd wrthym fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd sensitif, a chadarnhawyd y byddai'r enwau a'r rhagenwau a ffefrir ganddynt bob amser yn cael eu defnyddio.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da. Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r practis hefyd.

Gwnaethom edrych ar gynllun parhad busnes y practis, a oedd yn ymdrin â'r risg i'r bartneriaeth fusnes, risg pandemig ac yn cynnwys cynlluniau wrth gefn digon manwl ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor.

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio fel clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn rhybuddion diogelwch cleifion a'u dosbarthu i'r staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Nid oedd cofnod yn cael ei gadw o ba staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau na phryd yr oedd angen ei ddiweddarau. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Wrth edrych ar y ffeiliau a'r ddogfennaeth adnoddau dynol, gwelsom fod system ar waith i sicrhau bod gan bob aelod o'r staff imiwnedd a/neu ei fod wedi'i amddiffyn rhag Hepatitis B. Er bod cofrestr yn cynnwys pob aelod o'r staff, nid oedd yn cynnwys dyddiadau.

Dylai'r practis sicrhau bod dyddiadau wedi'u nodi ar y gofrestr ar gyfer Hepatitis B.

Er y dywedwyd wrthym fod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, gwnaethom argymhell y dylid rhoi rhaglen fanylach o archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i fonitro yn erbyn y safonau.

Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n brydlon. Er enghraifft, gwnaethom nodi bod ôl traul ar y carped ym mhob rhan o'r practis ac yn rhai o'r ardaloedd clinigol. Roedd y contractwr glanhau yn glanhau'r carpedi bob dydd ac roedd y dasg hon wedi'i hychwanegu at yr amserlenni glanhau. Fodd bynnag, mae'r carpedi yn yr ystafelloedd clinigol yn peri risg o ran atal a rheoli heintiau gan nad oes modd eu glanhau cystal â lloriau caled. Argymhellir na ddylai fod carpedi mewn mannau clinigol.

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei archwiliad atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol a chydabyddedig.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cyflogi contractwyr i ymgymryd â'r gwaith glanhau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw gofnodion o amserlenni glanhau wythnosol ar gael, ond gwelsom fod amserlenni glanhau ar gefn pob drws ym mhob ystafell glinigol. Gwelsom fod yr ardaloedd i'r cyhoedd, yr ystafelloedd trin/ystafelloedd ymgynghori a'r dderbynfa yn lân ac yn daclus.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff amserlenni glanhau wythnosol eu rhoi ar waith ac y caiff cofnod ei gadw, er mwyn cynnal llwybr archwilio.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod hylif diheintio dwylo ar gael a bod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl iddynt gael eu trin. Nododd pob un ond un o'r ymatebwyr fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'lân'.

Roedd trefniant ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Dywedwyd wrthym fod drws ochr yn rhan gefn yr adeilad ar gael, y gellid ei ddefnyddio i leihau cyswllt â chleifion eraill. Roedd ardal eistedd dan gysgod hefyd i gleifion aros pe byddai angen. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno bod arwyddion ger y fynedfa yn esbonio beth i'w wneud pe bai ganddynt afiechyd heintus.

Roedd hysbysiadau i'w gweld yn yr ystafelloedd trin yn cynnwys gwybodaeth am waredu offer miniog a gwastraff. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd na pholisi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed ar waith, ac ni welsom siart lif ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd wedi'i harddangos yn yr ystafelloedd clinigol ychwaith i helpu'r staff pe byddai angen. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis arddangos poster am anafiadau a achosir gan nodwydd yn glir yn yr ardaloedd trin.

Dylai'r practis arddangos poster am reoli anafiadau a achosir gan nodwydd yn yr ystafelloedd trin er mwyn helpu'r staff yn dilyn unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog.

Dywedodd y cleifion hynny a nododd eu bod wedi cael triniaeth fewnwrthol yn y practis fod y staff wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol fel menig yn ystod y driniaeth. Gwnaethant nodi hefyd fod y cyfarpar a ddefnyddiwyd mewn pecyn unigol neu wedi'i ddiheintio, a bod weips gwrthfacterol wedi cael eu defnyddio i lanhau'r croen cyn y driniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ac roedd polisi ar waith i ategu hyn. Gwnaethom nodi bod y gwastraff yn ddiogel ac nad oedd yn bosibl i'r cyhoedd ei gyrraedd.

Nid oedd cofnod yn cael ei gadw i nodi unrhyw staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau na phryd yr oedd angen iddynt gwblhau hyfforddiant gloywi. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, a cheir manylion yn Atodiad B.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd y broses i gleifion wneud cais am feddyginiaeth reolaidd yn glir.

Roedd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau yn cael eu cyfeirio at fferyllfa o ddewis y claf. Gellir casglu presgripsiynau o ddesg y dderbynfa hefyd. Caiff enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r unigolyn eu gwirio, a chedwir cofnod.

Roedd aelod o staff y practis wedi cael hyfforddiant ar bresgripsiynau rheolaidd. Roedd y meddygon teulu yn awdurdodi unrhyw gamau gweithredu neu achosion lle roedd angen ail-awdurdodi meddyginiaethau.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Dywedwyd wrthym fod proses ar waith i gael gwared ar badiu presgripsiwn yn ddiogel pan fydd meddyg teulu yn gadael y practis.

Roedd proses cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau neu frechlynnau yr oedd angen eu cadw yn yr oergell. Roedd dwy oergell glinigol ddynodedig ar gyfer eitemau penodol, megis brechlynnau. Roedd gwiriadau yn cael eu cwblhau o'r tymheredd bob dydd, ac roedd y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau hyn. Cadarnhaodd sgysiau â'r staff eu bod yn gwybod beth oedd y tymheredd uchaf a'r tymheredd isaf a beth i'w wneud pe bai'r gadwyn oer yn torri.

Mae'r meddygon teulu yn cwblhau adolygiadau o feddyginiaethau, a dywedwyd wrthym fod hyn yn rhan o'r broses ail-awdurdodi. Mae polisi rhagnodi meddyginiaethau rheolaidd ar waith yn y practis, ond nid oes polisi rhagnodi cyffredinol ar waith ar hyn o bryd.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu cadw yn y practis.

Roedd yn silindr ocsigen cludadwy yn cael ei storio yn y practis. Er bod hysbysiad wedi'i osod ar ddrws yr ystafell lle roedd y silindr ocsigen yn cael ei storio, rhaid sicrhau y caiff hysbysiad perygl statudol ei osod a hynny ar gyfer yr ardaloedd lle caiff yr ocsigen ei storio neu ei ddefnyddio. Yn ogystal, nid oedd lleoliad y storfa ocsigen wedi'i nodi yn y cynllun diogelwch tân.

Dylai'r practis sicrhau bod hysbysiad perygl statudol priodol ar ddrws yr ystafell storio ocsigen, a sicrhau bod y cynllun diogelwch tân yn nodi lleoliad y storfa ocsigen.

Nodwyd gennym hefyd nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar ddefnyddio Silindrau Ocsigen Cludadwy. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B. Nodwyd gennym hefyd nad oedd gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd y practis wedi penodi arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant. Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ar gael i'r staff, a oedd yn gyfredol, wedi'u cymeradwyo ac yn cynnwys manylion cyswllt arweinwyr dynodedig. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas. Roedd eicon bwrdd gwaith cyfrifiadurol ar gyfer amddiffyn plant ar bob cyfrifiadur bwrdd gwaith, a oedd yn anodd da i bob aelod o'r staff o ran amddiffyn plant. Roedd yn cynnwys polisi amddiffyn plant y practis ac adnoddau cymorth eraill i'r staff.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd prosesau ar waith i gynnal a chadw cyfarpar yn ddiogel. Gwelsom fod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod gwiriadau trydanol priodol wedi cael eu cynnal. Roedd contractau ar waith ar gyfer cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar fel y bo'n briodol, ac ar gyfer gwneud unrhyw waith atgyweirio brys neu ddarparu cyfarpar newydd.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod

gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys. Dangosodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt mai dim ond unwaith bob mis roedd gwiriadau yn cael eu cwblhau, ond dylid eu cynnal bob wythnos, yn unol â Safonau Ansawdd Cyngor Adfywio'r DU: Cyfarpar gofal sylfaenol a rhestr o gyffuriau. Dylai hyn gynnwys gwirio'r silindr ocsigen, y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd (AED) a'r cyfarpar a'r cyffuriau adfywio. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Nodwyd gennym hefyd nad oedd gan y practis fatri wrth gefn ar gyfer y diffibriliwr, ac nad oedd arwydd yn dangos ble roedd cyfarpar y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd yn cael ei storio. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, roedd y staff yn gwybod ble roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu cadw.

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Ystyried cadw batri wrth gefn ar gyfer y diffibriliwr
- Gosod hysbysiad yn nodi'n glir ble mae'r Diffibriliwr Allanol Awtomataidd yn cael ei gadw.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y cyffuriau brys a oedd wedi'u lleoli yn ystafell nyrsys y practis yn cael eu cadw mewn cwpwrdd a oedd wedi'i gloi. Rhaid storio'r holl gyffuriau adfywio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno a sicrhau eu bod ar gael yn hawdd os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn unol â Chyngor Adfywio'r DU. Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyffuriau brys ar gael yn hawdd i'r staff a'u bod wedi'u storio mewn lleoliad diogel, mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Ni welsom dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar gyfer argyfyngau meddygol, na hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B. Nodwyd gennym hefyd nad oedd polisi adfywio ar waith yn y practis.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau gofal effeithiol a diogel ac roedd hyn yn cynnwys y broses ar gyfer cael triniaeth neu ofal ar draws y clwstwr meddygon teulu a'r gwasanaethau gofal sylfaenol ehangach. Gwelsom enghreifftiau o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd system briodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau ac roedd unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw hysbysiadau diogelwch, newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu rhannu â'r staff dros e-bost a'u trafod â nhw fel y bo'n briodol, a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau/profion a naratif yn esbonio pam y gofynnwyd am yr ymchwiliadau.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion electronig deg claf. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd cyfrinair arnynt er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod. Roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roedd y cofnodion yn gyfredol ac yn hawdd i glinigwyr eraill eu deall. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn nodi a oedd gan y claf unrhyw alergeddau neu'n nodi nad oedd gan y claf unrhyw alergeddau. **Mae hwn yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom fod parhad gofal yn dda ar y cyfan, gyda'r cleifion a'u cofnodion yn cael eu goruchwyllo'n agos gan bob meddyg teulu. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos ymgynghoriadau o ansawdd da â chleifion. Fodd bynnag, gellid eu gwella drwy ddefnyddio Codau Read yn rheolaidd i gadw crynodebau ac i gysylltu ymgynghoriadau sy'n ymdrin â'r un broblem glinigol. Nid oedd unrhyw broses hyfforddi ffurfiol ar waith na dogfennau i helpu'r staff ymgymryd â gwaith codio, ac nid oes archwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal o gywirdeb y broses grynhoi.

Rhaid i'r practis wneud y canlynol

- Archwilio cofnodion y cleifion a'r ffordd y defnyddir codau Read er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chofnodi mewn ffordd gyson
- rhoi hyfforddiant ffurfiol ar waith ar gyfer gwaith crynhoi a chodio, a dylid cwblhau archwiliadau o gywirdeb y wybodaeth a gaiff ei chrynhoi a'i chodio.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau yn cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gall y practis atgyfeirio at wasanaethau ffisiotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth cyffuriau ac alcohol a gwasanaethau iechyd rhywiol drwy'r grŵp clwstwr. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth cwnsela bellach ar gael o fewn y clwstwr.

Ar y cyfan, gwelsom fod gwasanaethau yn cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Buom yn sgwrsio â'r staff drwy gydol yr arolygiad a chawsom adborth drwy holiadur staff. Roedd pawb a ymatebodd yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl. Nododd dau o'r tri ymatebydd nad oeddent wedi cael eu harfarniad, eu hadolygiad datblygu neu eu hadolygiad blynyddol.

Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn gallu bodloni'r galwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, roedd un yn teimlo nad oedd digon o staff iddo allu gwneud ei swydd yn iawn, ac roedd un arall yn teimlo nad oedd yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwasanaethau'r feddygfa.

Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis

Roedd pawb a ymatebodd yn teimlo:

- Eu bod yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel
- Byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo
- Byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y practis iddyn nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd, a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu mynd at yr arweinwyr i fynegi unrhyw bryderon ac y byddent yn ymdrin â nhw'n briodol. Cadarnhaodd yr arweinwyr fod polisi drws agored ar waith er mwyn i'r staff allu rhannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn a'u bod yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Fodd bynnag, nid oedd cofnodion y cyfarfodydd y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys cofnod o gamau gweithredu lle y bo'n gymwys, er mwyn i'r unigolion a oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu ddeall beth oedd yn ofynnol ganddynt.

Dylai'r practis ystyried cynnwys cofnodlyfr o gamau gweithredu fel rhan o gofnodion cyfarfodydd er mwyn neilltuo camau gweithredu yn effeithiol a'u monitro'n briodol.

Gwnaethom edrych ar gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Nid oedd pump ar waith (Polisiau Rheoli Meddyginiaeth, Rhagnodi Cyffredinol, Crynhoi, Adfywio a Feirysau a Gludir yn y Gwaed). Roedd y broses rheoli dogfennau a oedd ar waith yn gyfyngedig, ac nid oedd rhai polisiau wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.

Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu i gynnwys proses gadarn ar gyfer rheoli ac adolygu dogfennau, er mwyn sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Yn ystod ein harolygiad, dim ond cofnodion hyfforddiant y staff gweinyddol a gyflwynwyd. Dywedwyd wrthym nad oes cofnod yn cael ei gadw yn y practis, fel matrices hyfforddiant, i fonitro a yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gloywi diweddaraf, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac unigolion sy'n ymweld â'r feddygfa. Byddai rhoi matrices hyfforddiant ar waith ar gyfer holl rolau'r staff yn nodi'n glir p'un a ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac yn nodi'r rhai y mae angen iddynt ddiweddarau eu hyfforddiant. O ganlyniad, ni chawsom sicrwydd bod y trefniadau ar gyfer rheoli a goruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn gadarn er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau'n gymwys i ymgymryd â'i rôl yn ddiogel ac yn briodol. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Roedd polisiau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith, a disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geiradaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n briodol i'w rôl.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn gofyn am adborth gan gleifion, ac roedd gwybodaeth yn cael ei dangos yn yr ardal aros yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei

ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.

Roedd proses gwynion effeithiol ar waith yn ogystal â system olrhain i fonitro, adolygu a datrys cwynion ac adborth. Roedd hyn yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.

Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt a gallent rannu'r rhain â'u rheolwr i'w hystyried. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd i'r holiadur staff yn anghytuno y gallai wneud awgrymiadau i wella gwasanaethau yn y practis.

Gwnaethom siarad â'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi ar waith ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, ond roedd y cofnodion a welsom yn dangos nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Roedd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn deall eu rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn, ond ni welsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc hwn. Ymdriniwyd â hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith yn Atodiad B.

Roedd proses y practis ar gyfer trin data cleifion ar gael ar y wefan.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dysgu gwersi o adolygiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys digwyddiadau a chwynion. Dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r practis cyfan mewn cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn gwneud

gwelliannau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod unrhyw gamau wedi'u cymryd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o glwstwr meddygon teulu. Roedd staff meddygol yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Sili

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2025

Canfyddiadau

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos mai dim ond unwaith bob mis roedd gwiriadau yn cael eu cofnodi. Dylid cynnal gwiriadau bob wythnos, yn unol â Safonau Ansawdd Cyngor Adfywio'r DU: Cyfarpar gofal sylfaenol a rhestr o gyffuriau. Dylai hyn gynnwys gwiriadau o'r silindr ocsigen, y diffibriliwr a'r cyfarpar a'r cyffuriau adfywio.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: sicrhau bod yr holl gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob wythnos	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel; Amserol; Gwybodaeth	Rydym wedi diwygio ein hamserlen er mwyn sicrhau bod ein nyrs arweiniol yn cynnal y gwiriadau hyn bob wythnos nawr, a chaiff y broses ei dogfennu bob tro er mwyn rhoi sicrwydd.	SK (Sian Kelly, nyrs arweiniol), wedi'i goruchwyllo gan KS (Kathy Stanton, rheolwr y practis)	Ar unwaith

Canfyddiadau

Nododd AGIC fod y cyffuriau brys a oedd wedi'u lleoli yn ystafell nyrsys y practis yn cael eu cadw mewn cwpwrdd a oedd wedi'i gloi. Rhaid storio'r holl gyffuriau adfywio mewn cynwysyddion â sêl ddiogelwch arnynt a sicrhau eu bod ar gael yn hawdd os bydd argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn unol â Chyngor Adfywio'r DU

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
2.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y cyffuriau brys ar gael yn hawdd i'r staff a'u bod wedi'u storio mewn	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) - Diogel	Byddwn yn prynu sêl ddiogelwch/cynhwysydd ar gyfer y	SK/KS	4 wythnos

lleoliad diogel, mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno		cyffuriau brys, ac ni fyddwn yn defnyddio'r clo ar y cwpwrdd mwyach.		
--	--	--	--	--

Canfyddiadau

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod y trefniadau ar gyfer rheoli a goruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn ddigon cadarn i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau'n gymwys i ymgymryd â'i rôl yn ddiogel ac yn briodol.

Yn ystod ein harolygiad, dim ond cofnodion hyfforddiant y staff gweinyddol yr oedd modd i ni edrych arnynt. Dywedwyd wrthym nad oes cofnod yn cael ei gadw yn y practis, fel matrices hyfforddiant, i fonitro a yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gloywi diweddaraf, er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac unigolion sy'n ymweld â'r feddygfa.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
3. Rhaid i'r practis wneud y canlynol: - Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol, a darparu tystiolaeth o hynny - Rhoi system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant diweddarau.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel; y gweithlu; gwybodaeth	Rydym wedi creu matrices hyfforddiant canolog ar gyfer hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff gweinyddol. Caiff y matrices hwn ei adolygu a'i ddiweddarau bob blwyddyn, a chaiff aelodau unigol o staff eu monitro drwy eu harfarniadau blynyddol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.	KS	4 wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Dr Calum Forrester-Paton

Teitl swydd: Meddyg Teulu Partner

Dyddiad: 30/01/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Sili

Dyddiad yr arolygiad: 28 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i arddangos yn yr ardal aros, ond nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol i ddangos bod y gwasanaeth hwn ar gael.	Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion am yr opsiwn o gael hebryngwr ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae hysbysiadau am hebryngwyr bellach i'w gweld ym mhob ystafell drin glinigol	K Stanton Rheolwr y Practis	Wedi'i roi ar waith

2.	Nid oes unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y practis, ond fel rhan o'r "cynnig rhagweithiol" ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg, dylai holl wybodaeth y practis a'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Gwelsom fod rhai arwyddion a phosteri ar gael yn Gymraeg, ond dim ond yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf ohonynt ar gael.	Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Practis bach yw'r practis ag 14 aelod o staff y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n rhan amser. Er bod y gallu i siarad Cymraeg wedi'i nodi fel maen prawf dymunol ar gyfer pob hysbyseb swydd ers sawl blwyddyn, yn anffodus nid oes unrhyw aelod o'n staff yn siarad Cymraeg. Nid oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn yr ardal hon, ond rydym yn gwerthfawrogi ei bod hi'n bwysig sicrhau y gall cleifion gyfathrebu yn eu mamiaith os byddant am wneud hynny. Felly, rydym o'r farn mai gwasanaeth Language Line fyddai'r opsiwn gorau yn pe byddai angen gwneud hynny.	K Stanton Rheolwr y Practis	3 mis
----	---	--	--	--	--	--------------

				Gofynnwyd i'r staff gwblhau'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Mwy na Geiriau) ar Dysgu@GIGCymru. Caiff hyn ei gynnwys fel rhan o'u rhaglen hyfforddi gyffredinol. Ar ôl iddynt gwblhau'r hyfforddiant hwn, byddwn yn eu hannog i ystyried cwblhau'r cyrsiau rhagflas byr ar-lein Cymraeg Gwaith ar gyfer y sector gofal iechyd. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn tynnu sylw at y newidiadau bach y gall pawb eu gwneud i ddefnyddio mwy o Gymraeg fel rhan o fywyd pob dydd yn y practis. Rydym yn gofyn i gleifion sy'n ymuno â rhestr y practis nodi eu dewis iaith fel rhan o'r Holiadur i Gleifion		
--	--	--	--	---	--	--

				Newydd. Caiff unrhyw iaith a ffefrir ei chofnodi ar y system glinigol electronig. Lle caiff y Gymraeg ei nodi fel y dewis iaith, byddai'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei hychwanegu ar ffurf neges naid a fydd yn ymddangos pan gaiff y cofnod ei agor i atgoffa/annog y staff i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg cyffredin fel shwmae, da iawn, hwyl fawr ac ati. Bydd y clinigwyr hefyd yn gwneud hynny os byddant yn dod yn ymwybodol bod cleifion yn siarad Cymraeg yn ystod ymgynghoriad, er enghraifft os bydd rhiant yn siarad Cymraeg â phlentyn. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a phosteri		
--	--	--	--	---	--	--

				yn y practis yn ddwyieithog.		
3.	Wrth edrych ar y ffeiliau a'r ddogfennaeth adnoddau dynol, gwelsom fod system ar waith i sicrhau bod gan bob aelod o'r staff imiwnedd a/neu ei fod wedi'i amddiffyn rhag Hepatitis B. Er bod cofrestr yn cynnwys pob aelod o'r staff, nid oedd yn cynnwys dyddiadau.	Dylai'r practis sicrhau bod dyddiadau wedi'u nodi ar y gofrestr ar gyfer Hepatitis B.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Mae dyddiadau wedi'u cynnwys ar y gofrestr Hepatitis B	K Stanton Rheolwr y Practis	Wedi'i roi ar waith
4.	Er y dywedwyd wrthym fod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, gwnaethom argymhell y dylid rhoi rhaglen	Rhaid i'r practis ddiweddarau ei archwiliad atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol a chydabyddedig.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Bydd ein nyrs arweiniol ar gyfer atal a rheoli heintiau yn adolygu ein proses archwilio ac yn sicrhau ei bod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau	S Kelly Nyrs y Practis	3 mis

	fanylach o archwiliadau atal a rheoli heintiau ar waith i fonitro yn erbyn y safonau.			atal a rheoli heintiau cyfredol. Rydym wedi diweddarau ein polisi atal a rheoli heintiau ac mae'n cynnwys rhaglen o archwiliadau atal a rheoli heintiau. Rydym yn bwriadu newid y carpedi i loriau caled sy'n cydymffurfio â'r safonau atal a rheoli heintiau		
5.	Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cyflogi contractwyr i ymgymryd â'r gwaith glanhau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw gofnodion o amserlenni	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff amserlenni glanhau wythnosol eu rhoi ar waith ac y caiff cofnod ei gadw, er mwyn cynnal llwybr archwilio.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r contractwr glanhau ddarparu a chynnal amserlenni glanhau wythnosol a chedwir cofnodion. Rydym yn aros am ymateb	K Stanton Rheolwr y Practis	1 mis

	glanhau wythnosol ar gael, ond gwelsom fod amserlenni glanhau ar gefn pob drws ym mhob ystafell glinigol. Gwelsom fod yr ardaloedd i'r cyhoedd, yr ystafelloedd trin/ystafelloedd ymgynghori a'r dderbynfa yn lân ac yn daclus.					
6.	Roedd hysbysiadau i'w gweld yn yr ystafelloedd trin yn cynnwys gwybodaeth am waredu offer miniog a gwastraff. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar gyfer anafiadau a achosir gan	Dylai'r practis arddangos poster am reoli anafiadau a achosir gan nodwydd yn yr ystafelloedd trin er mwyn helpu'r staff yn dilyn unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Mae hysbysiadau ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd i'w gweld ym mhob ystafell drin. Diweddarwyd ein polisi atal a rheoli heintiau i gynnwys adrannau ar feirysau a gludir yn y gwaed ac	K Stanton Rheolwr y Practis S Kelly Nyrs y Practis	Wedi'i roi ar waith

	nodwydd na pholisi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed ar waith, ac ni welsom siart lif ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd wedi'i harddangos yn yr ystafelloedd clinigol ychwaith i helpu'r staff pe byddai angen. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis arddangos poster am anafiadau a achosir gan nodwydd yn glir yn yr ardaloedd trin.			anafiadau a achosir gan nodwydd.		
7.	Er bod hysbysiad wedi'i osod ar ddrws yr ystafell	Dylai'r practis sicrhau bod hysbysiad perygl statudol priodol ar ddrws yr	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Rydym wedi diwygio'r cynllun diogelwch tân i gynnwys lleoliad y silindr ocsigen. Rydym	K Stanton Rheolwr y Practis	Wedi'i roi ar waith

	lle roedd y silindr ocsigen yn cael ei storio, rhaid sicrhau y caiff hysbysiad perygl statudol ei osod a hynny ar gyfer yr ardaloedd lle caiff yr ocsigen ei storio neu ei ddefnyddio. Yn ogystal, nid oedd lleoliad y storfa ocsigen wedi'i nodi yn y cynllun diogelwch tân.	ystafell storio ocsigen, a sicrhau bod y cynllun diogelwch tân yn nodi lleoliad y storfa ocsigen.		wedi newid yr arwydd ar ddrws yr ystafell drin er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer arwydd statudol.		
8.	Nodwyd gennym nad oedd gan y practis fatri wrth gefn ar gyfer y diffibriliwr, ac nad oedd arwydd yn dangos ble roedd cyfarpar y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd yn cael ei storio.	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: • Ystyried cadw batri wrth gefn ar gyfer y diffibriliwr • Gosod hysbysiad yn nodi'n glir ble mae'r Diffibriliwr Allanol Awtomataidd yn cael ei gadw.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Rydym wedi ychwanegu batri ar gyfer y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd i'r rhestr cyffuriau brys, er mwyn gallu ei fonitro bob wythnos. Rydym wedi rhoi arwydd Diffibriliwr Allanol Awtomataidd	K Stanton Rheolwr y Practis	Wedi'i roi ar waith

	Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, roedd y staff yn gwybod ble roedd y cyfarpar a'r cyffuriau brys yn cael eu cadw.			ar ddrws yr ystafell drin. Rydym yn cynnal hyfforddiant i bob aelod o'r staff er mwyn rhoi gwybod iddynt ble y caiff y cyfarpar brys ei gadw ac nid ystyrir bod posteri yn ffordd briodol o reoli staff clinigol na sefyllfaoedd critigol.		
9.	Gwelsom fod parhad gofal yn dda ar y cyfan, gyda'r cleifion a'u cofnodion yn cael eu goruchwyllo'n agos gan bob meddyg teulu. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos ymgynghoriadau o ansawdd da â chleifion. Fodd bynnag, gellid eu gwella drwy ddefnyddio Codau	Rhaid i'r practis wneud y canlynol • Archwilio cofnodion y cleifion a'r ffordd y defnyddir codau Read er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei chofnodi mewn ffordd gyson • rhoi hyfforddiant ffurfiol ar waith ar gyfer gwaith crynhoi a chodio, a	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Byddwn yn cytuno ar bolisi Codau Read ac yn ei roi ar waith. Caiff hyn ei drafod a'i esbonio yn ystod cyfarfodydd y practis. Byddwn yn cytuno ar bolisi crynhoi ac yn ei roi ar waith, a chaiff nodiadau eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r polisi.	C Forrester-Paton Meddyg Teulu Partner K Stanton Rheolwr y Practis	6 mis

	Read yn rheolaidd i gadw crynodebau ac i gysylltu ymgynghoriadau sy'n ymdrin â'r un broblem glinigol. Nid oedd unrhyw broses hyfforddi ffurfiol ar waith na dogfennau i helpu'r staff ymgymryd â gwaith codio, ac nid oes archwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal o gywirdeb y broses grynhoi.	dylid cwblhau archwiliadau o gywirdeb y wybodaeth a gaiff ei chrynhoi a'i chodio.				
10.	Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn a'u bod yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion y cyfarfodydd y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys cofnod o gamau	Dylai'r practis ystyried cynnwys cofnodlyfr o gamau gweithredu fel rhan o gofnodion cyfarfodydd er mwyn neilltuo camau gweithredu yn effeithiol a'u monitro'n briodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Lluniwyd dogfen dempled er mwyn sicrhau bod cofnod clir o'r eitemau ar yr agenda, y camau gweithredu, pwy sy'n cwblhau'r camau hynny a'r terfynau amser cysylltiedig ar gyfer pob cyfarfod.	A Rayani Meddyg Teulu Partner K Stanton Rheolwr y Practis	Wedi dechrau ac yn barhaus

	gweithredu lle y bo'n gymwys, er mwyn i'r unigolion a oedd yn gyfrifol am y camau gweithredu ddeall beth oedd yn ofynnol ganddynt.					
11.	Gwnaethom edrych ar gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Nid oedd pump ar waith (Polisiau Rheoli Meddyginiaeth, Rhagnodi Cyffredinol, Crynhoi, Adfywio a Feirysau a Gludir yn y Gwaed). Roedd y broses rheoli dogfennau a oedd ar waith yn	Rhaid i'r practis gryfhau ei drefniadau llywodraethu i gynnwys proses gadarn ar gyfer rheoli ac adolygu dogfennau, er mwyn sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn berthnasol i'r practis ac ar gael i'r staff.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae polisi adfywio ar waith gennym ac mae'r polisi hwnnw ar gael yn y ffolder Polisiau, Gweithdrefnau a Phrotocolau electronig. Os nad oedd ar gael yn ystod yr ymweliad, doedd dim rheswm am hyn. Mae cynlluniau ar y gweill i roi polisi feirysau a gludir yn y gwaed a pholisi crynhoi ar waith. Rydym hefyd wedi	K Stanton Rheolwr y Practis	2 fis

	gyfyngedig, ac nid oedd rhai polisiâu wedi cael eu rhoi ar waith yn unol ag anghenion penodol y practis.			ychwanegu polisi Rheoli Meddyginiaeth at y polisi rhagnodi. Byddwn yn gwella ein proses ar gyfer rheoli ac adolygu dogfennau er mwyn sicrhau y caiff pob polisi ei adolygu ar gyfnodau priodol.		
12.	Roedd y practis yn gofyn am adborth gan gleifion, ac roedd gwybodaeth yn cael ei dangos yn yr ardal aros yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn	Rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Byddwn yn cynnwys adborth gan gleifion fel adran yng nghyfarfodydd rheolaidd y practis er mwyn sicrhau ein bod yn ei ystyried fel ffordd o wella. Rydym wedi creu blwch awgrymiadau/adborth er mwyn cael adborth anffurfiol, a chaiff unrhyw sylwadau eu trafod ar y cyd â sylwadau o ddulliau mwy ffurfiol fel arolygon blynyddol ac	K Stanton Rheolwr y Practis	3 mis

	dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.			Orbit 360 fel rhan o arfarniadau.		
--	--	--	--	--------------------------------------	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): K Stanton

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 26.3.25